

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL DIWYGIEDIG (MEMORANDWM RHIF 2)

Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth: Gwelliant i Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954

Mae'r Memorandwm hwn yn diwygio'r Memorandwm a osodwyd ar 7 Tachwedd (LCM-LD9980) (mae'r Memorandwm hwn wedi'i ddiwygio i ystyried y gwelliannau i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ("y Bil") a gyflwynwyd dydd Sadwrn 20 Rhagfyr gan y Farwnes Neville-Rolfe, yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau a'r Gweinidog dros Eiddo Deallusol. Mae'r gwelliannau yn ymwneud â Chymalau 35, 152, 153 ac 157.

Mae'r gwelliannau hyn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, ac yn ymwneud â Ddeddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 a thenantiaethau busnesau cartref.

Yn unol â Gorchymyn Sefydlog 29.3 (v) mae'r Memorandwm diwygiedig hwn yn nodi sut a pham mae'r Memorandwm newydd yn wahanol i'r un blaenorol.

Diwygiwyd paragraff 9, ac ychwanegwyd paragraffau 11a, b ac c er mwyn egluro'r gwelliannau a wnaed i'r Bil ers cyflwyno'r Memorandwm blaenorol.

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sy'n dod o fewn, neu sy'n addasu, cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.
2. Cyflwynwyd y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 25 Mehefin 2014. Cewch weld y Bil yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2014-15/smallbusinessenterpriseandemployment.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddwr y Bil yw'r Adran Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ("BIS"). Prif amcanion polisi'r BIS ar gyfer y Bil hwn yw creu cyfleoedd newydd i fusnesau bach gystadlu, cael hyd i gyllid, creu swyddi, tyfu, arloesi ac allforio.
4. Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau ynghylch:
 - gwella cyfleoedd i fusnesau ac unigolion i gael at gyllid;
 - darpariaethau rheoliadol sy'n ymwneud â busnesau a rhai cyrff gwirfoddol a chymunedol;
 - swyddogaethau caffael rhai awdurdodau cyhoeddus;

- creu Cod Tafarnau a Dyfarnwr ar gyfer rheoleiddio ymwneud busnesau sy'n berchen ar dafarndai â thenantiaid eu tafarndai clwm;
- rheoleiddio'r modd y darperir gofal plant a darpariaeth ynghylch gwybodaeth sy'n ymwneud â gwerthuso addysg;
- rheoleiddio cwmnïau;
- y gofyn ar gwmnïau i gadw ffeiliau;
- anghymhwysedd rhag penodiad ar gyfer cwmnïau; a darpariaeth ynghylch ansolfedd;
- y gyfraith sy'n ymwneud â chyflogaeth; a dibenion cysylltiedig.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir caniatâd ar eu cyfer

5. Ceisir caniatâd y Cynulliad ar gyfer gwelliannau a osodwyd gan Matthew Hancock AS a Jo Swinson AC i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth ar 28 Hydref. Mae gwelliannau 209, 210, 211, 212, 213, 214 a 215 yn ymwneud ag ychwanegu cymal NC11 at y Bil er mwyn eithrio tenantiaethau busnesau cartref o Ran 2 Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954.
6. Nod y gwelliannau i'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth yw helpu busnesau cartref ac fe'u cynlluniwyd i annog landlordiaid tai preswyl i ganiatáu eu tenantiaid i gynnal busnes yn eu heiddo. Mae'r gwelliannau'n darparu ar gyfer cymal newydd i newid Deddf Landlordiaid a Thenantiaid 1954 ac yn ymdrin â'r cymal hwnnw, fel na fydd ei darpariaethau o ran sicrwydd deiliadaeth tenantiaethau busnes yn gymwys i denantiaethau anheddau a roddwyd i unigolion ar gyfer eu defnyddio fel cartrefi, pan fydd tenantiaid, gyda chaniatâd eu landlord, yn cynnal math o fusnes y gellid yn rhesymol ei gynnal yn y cartref. Bydd landlordiaid yn rhydd i ddweud pa weithgareddau i'w caniatáu ond bwriad y gwelliant yw dileu'r cymhelliad cyfredol i wahardd pob math o weithgarwch busnes.
7. Mae'r gwelliant yn diffinio "busnes cartref" ("home business") fel math o fusnes y gellid yn rhesymol ei gynnal yn y cartref. Fodd bynnag, ni fydd busnes yn fusnes cartref os bydd yn cyflenwi alcohol i'w yfed ar safle trwyddedig o fewn yr annedd neu ran ohono.
8. Mae'r gwelliannau hyn yn effeithio ar Gymru.
9. Mae cymal newydd NC11 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i ragnodi achosion lle ceir neu na cheir ymdrin â busnesau fel busnesau cartref. Bydd y rheoliadau yn cael eu gwneud drwy offeryn statudol. Fodd bynnag, ni ellir gwneud offeryn statudol nes bod offeryn statudol drafft sy'n cynnwys y

rheoliadau wedi'i gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'i gymeradwyo mewn cynnig (h.y. y weithdrefn gadarnhaol).

10. Mae'r gwelliannau'n darparu hefyd ar gyfer adolygu cymalau rhif 143, 144 ac 148 y Bil ar 28 Hydref o ganlyniad i gymal newydd NC11. Mae gwelliannau 209 i 212 i gymal 143 y Bil yn cynnwys rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaethau canlyniadol mewn cysylltiad â chymal newydd NC11 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Lle bo gwelliannau canlyniadol yn diwygio neu'n diddymu Deddf neu un o Fesurau neu Ddeddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, daw'r rheoliadau'n destun y weithdrefn gadarnhaol. Fel arall, dilynir y weithdrefn negyddol.

11. Mae gwelliant rhif 213 i gymal 144 y Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, darfodol ac arbed mewn cysylltiad â chychwyn y cymal newydd NC11, ac mae'n gosod terfyn ar y pŵer cyfatebol a roddir i Weinidogion y Goron fel nad yw'n gorgyffwrdd â'r pŵer a roddir i Weinidogion Cymru. Mae'r gwelliannau rhif 214 – 215 i gymal 148 y Bil yn cynnwys rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddod â'r cymal newydd NC11 i rym yng Nghymru. Nid oes gofyn i reoliadau sy'n gwneud darpariaeth drosiannol, darfodol neu arbed mewn cysylltiad â dod â chymal newydd NC11 i rym, neu i gychwyn cymal newydd NC11 ddilyn gweithdrefn y Cynulliad.
 - 11a. Cyflwynwyd gwelliannau pellach 'Ar ôl Cymal 35' i'r Bil ar 20 Rhagfyr, gan fewnosod y Cymal newydd canlynol dan yr enw 'Section 35: supplemental and consequential provision' sy'n ymwneud â thenantiaethau mewn ymddiriedolaeth. Mae'r darpariaethau hyn yn diwygio adran 41 o Ddeddf 1954 er mwyn sicrhau pan fo person yn cynnal busnes cartref ac yn byw yn y cartref fel buddiolwr dan ymddiriedolaeth, bod yr un egwyddorion yn gymwys ac na fydd tenantiaeth o'r fath yn derbyn sicrwydd deiliadaeth sy'n gymwys i denantiaethau busnes dan Ran 2 o Ddeddf 1954.
 - 11b. Bydd y cymal 35 newydd, 'supplemental and consequential provision', hefyd yn cynnwys darpariaeth dechnegol er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddefnyddio darpariaethau yn ymwneud â thenantiaethau busnesau cartref.
 - 11c. Cyflwynwyd gwelliannau pellach i'r Bil ar 20 Rhagfyr ar gyfer Cymalau 152, 153 a 157 er mwyn sicrhau bod modd i Weinidogion Cymru hefyd wneud darpariaeth ganlyniadol mewn perthynas â'r cymal newydd sy'n cael ei ddisgrifio ym mharagraffau 11a ac 11b uchod, a chychwyn y cymal newydd mewn perthynas â Chymru.

12. Ym marn Llywodraeth Cymru, daw'r darpariaethau hyn o dan gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn belled cyn belled â'n bod yn ymwneud â "thai" (o dan bwnc 11 o Ran 1 Atodlen 7 GOWA) ac mewn perthynas â "hyrwyddo busnes a chystadleurwydd" (o dan bwnc 4 "Datblygu Economaidd" yn Rhan 1 Atodlen 7).

Manteision defnyddio'r Bil yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

13. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ystyried a chymeradwyo'r darpariaethau hyn yn y Bil DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf priodol a chymharus i roi'r darpariaethau hyn ar waith yng Nghymru.
14. Mae gan Gymru gyfran uwch o ficro-fusnesau na Lloegr, ac maent o bwys arwyddocaol a chynyddol i economi Cymru. Bydd y gwelliannau i'r Bil DU yn sicrhau bod gan y busnesau hyn y potensial i elwa ar y darpariaethau hyn yr un pryd â busnesau yn Lloegr. Bydd y darpariaethau hefyd yn cael gwared ar rwystr posibl i ffurfio busnesau newydd a llwyddiannus yng Nghymru yr un pryd â Lloegr.

Goblygiadau ariannol

15. Mae'r gwelliannau wedi'u cynllunio i annog a meithrin twf micro-fusnesau a dylent felly arwain at fwy o fuddiannau economaidd a chymdeithasol i'r economi leol a'r economi genedlaethol. Mae perygl bychan y gallai Gweinidogion Cymru, wrth roi eu caniatâd ar gyfer y gwelliannau hyn, erydu peth o'r sylfaen drethu pe bae mwy o fusnesau cartref yn gorfod talu ardrethi annomestig. Hynny am fod y swm sy'n daladwy o dan Ardrethi Annomestig fel arfer yn llai na'r rhwymedigaeth o dan Dreth y Cyngor a gallai felly effeithio ar yr arian fydd ar gael i Lywodraeth Leol. Fodd bynnag, fel arfer, ni fydd angen i ardrethdalwr orfod talu ardrethi Annomestig ar fân-ddefnydd o gartref os yw ei brif ddefnydd o hyd yn ddomestig, felly Treth y Cyngor a delir o hyd. Hefyd, mae'r gwelliant yn ymwneud yn unig ag eiddo â thenant, felly mae'n debygol na effeithir ar niferoedd mawr. O ganlyniad, ystyrir na chaiff y gwelliant hwn effaith arwyddocaol ar yr arian fydd ar gael i Lywodraeth Leol.

Lesley Griffiths AC
Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Ionawr 2015